**Adroddiad at:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **19 Mawrth 2013**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Bobby Feeley**

**Awdur yr Adroddiad:** **Rhian Allen, Swyddog Comisiynu, Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd**
**Hywyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Ddysgu a Chymunedau**
**Leighton Rees, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd**

**Teitl: Cydweithio Rhanbarthol Gofalwyr Ifanc**

---

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â datblygu gwasanaeth rhanbarthol i Ofalwyr Ifanc mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gan fod cost gyffredinol bosibl y contract rhanbarthol yn uwch na £1 miliwn, mae angen cytundeb y Cabinet i ddatblygu opsiynau ar gyfer datblygu cydweithio rhanbarthol/isranbarthol ar gyfer darparu Gwasanaethau i Ofalwyr Ifanc

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn cymeradwyo i waith gael ei wneud i ddatblygu cydweithrediad rhanbarthol/isranbarthol ar gyfer darparu Gwasanaethau i Ofalwyr Ifanc ar draws Awdurdodau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Cefndir

4.1.1 Mae cyfrifoldebau statudol ar bob Awdurdod Lleol mewn perthynas â Gofalwyr Ifanc. Mae pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn comisiynu gwasanaethau i ofalwyr ifanc, ac mae pob un o'r gwasanaethau hyn a gomisiynir yn cael eu cefnogi ar lefel leol gan ariannu ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Darperir y gwasanaethau hyn gan ddau sefydliad ac mae gan 5 o'r 6 Awdurdod Lleol yr un darparwr.

4.1.2 Fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud o dan y fenter Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngogledd Cymru cafodd gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr Ifanc eu hadnabod i'w hystyried ar gyfer cydweithio ar draws awdurdodau. Mae gweithgor wedi'i sefydlu sy'n cynnwys chwe Awdurdod Gogledd Cymru a chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

4.1.3 Mae dadansoddiad manwl o ddefnydd, cyflwyniad a chost contractau cyfredol ar draws Gogledd Cymru wedi'i gynnal ar sail gwybodaeth gan ddarparwyr cyfredol. Mae amrywiadau yn nifer y Gofalwyr Ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau ar draws yr awdurdodau gyda Sir Ddinbych yn un o'r isaf. Mae amrywiadau hefyd yng nghostau a darpariaeth gwasanaeth ar draws yr awdurdodau.

4.1.4 Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd, mae costau ar gyfer gwasanaeth rhanbarthol wedi'i gyfrifo ar sail defnydd a chyflwyniad cyfredol. Wrth ystyried costau rheoli a staff, mae canran wedi'i dosrannu i bob awdurdod sy’n dangos arbedion sylweddol pe bai contract rhanbarthol yn cael ei geisio ar draws pob un o chwe Awdurdod Gogledd Cymru.

4.2 Buddion Allweddol

4.2.1 Fel y nodir uchod mae'r gweithgor wedi adnabod amrywiad sylweddol ar draws yr Awdurdodau a chwmpas posibl ar gyfer gwelliannau gwasanaeth trwy gydweithio gydag awdurdodau cyfagos a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rhestrir y buddion cydweithio isod:

- Symleiddio'r gwasanaethau ar gyfer cyrff iechyd a rhanbarthol eraill
- Gwella cysondeb gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru, a all wella profiad Gofalwyr Ifanc sy'n symud o un sir i un arall.
- Gall symleiddio'r systemau atgyfeirio wneud y broses yn fwy effeithlon ar gyfer awdurdodau atgyfeirio.
- Gallai arwain at wella safonau a rhannu arfer arloesol, er mae risg y bydd y gwasanaeth yn disgyn i'r cyfenwadur lleiaf y mae angen ei reoli.
- Gall osod safonau gofynnol ar draws Gogledd Cymru, a all helpu'r rhai sy'n atgyfeirio, megis athrawon, ddeall pa wasanaethau ddylai fod ar gael a chynnig llwybrau clir ar gyfer Gofalwyr Ifanc a gweithwyr iechyd proffesiynol.
- Efallai y bydd un gwasanaeth mawr yn cael dylanwad ychwanegol i helpu i godi proffil anghenion Gofalwyr Ifanc
- Dylai gwasanaeth rhanbarthol gynhyrchu arbedion ariannol ar gyfer pob partner.

4.3 Sefyllfa Gyfredol

4.3.1 Mae cam nesaf y prosiect angen ymrwymiad ariannol gan bob awdurdod lleol. Oherwydd graddfa'r contract, a fydd tua £300,000 i £350,000 y flwyddyn, rhaid i'r cynnig fynd trwy broses wleidyddol pob awdurdod lleol i'w gymeradwyo.

4.3.2 Rydym yn aros am gadarnhad gan awdurdodau eraill eu bod yn ymrwymedig i symud at ymdriniaeth ranbarthol tuag at Wasanaeth i Ofalwyr Ifanc. Ar hyn o bryd mae ymrwymiad gan Gonwy, Sir Ddinbych a Wrecsam, y cyfan yn amodol ar gymeradwyaeth wleidyddol. Nid oes arwydd gan y tri awdurdod arall ynglŷn â'u sefyllfa.

4.3.3 Os bydd yr awdurdodau eraill yn dewis peidio â bod yn rhan o'r contract rhanbarthol cynigir ein bod yn mynd i gontract isranbarthol rhwng Sir Ddinbych, Conwy a Wrecsam sydd hefyd yn debyg o gyflwyno arbedion costau ynghyd â buddion wrth gyflwyno gwasanaeth. Byddai diwygiadau yn cael eu gwneud i'r ddalen gyllideb gyfredol i adlewyrchu newidiadau ac adnabod pa arbedion fyddai'n bosibl.

4.3.4 Fel y nodir uchod yn 4.1.3 Sir Ddinbych sydd â'r nifer isaf o Ofalwyr Ifanc. Er mwyn sicrhau ein bod yn adnabod cynifer o Ofalwyr Ifanc â phosibl mae gwaith yn cael ei wneud trwy'r tîm Partneriaeth mewn cydweithrediad ag Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae rhan gyntaf y gwaith hwn ar droed i osod blwch ticio ar y ffurflenni ysgol blynyddol y mae rhieni yn eu llanw yn gofyn a ydynt yn ystyried bod eu plentyn yn ofalwr ifanc. Bydd diffiniad o Ofalwr Ifanc hefyd yn cael ei gynnwys i gynorthwyo rhieni. Mae'r ffurflenni yn cael eu diwygio ar hyn o bryd er mwyn galluogi inni gasglu data o'r mis Medi hwn. Mae hyn yn debyg o gynyddu'n sylweddol ar nifer y Gofalwyr Ifanc yr ydym yn ymwybodol ohonynt a fydd yn effeithio ar y gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno.

## 5 Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 *Gwella perfformiad o fewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol* **–** Bydd adnabod a chefnogi gofalwyr ifanc yn galluogi i gefnogaeth gael ei darparu i'w cynorthwyo hwy yn eu cyrhaeddiad addysgiadol.

5.2 *Pobl fregus yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl* – Bydd codi proffil gofalwyr ifanc yn galluogi inni ddarparu'r gefnogaeth fwyaf effeithiol i blant a phobl ifanc bregus sy'n ofalwyr ifanc.

5.3 *Moderneiddio'r cyngor i gyflwyno arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid* - Trwy gydweithio mae potensial ar gyfer arbedion effeithiolrwydd a gwasanaeth symlach a gwell ar gyfer gofalwyr ifanc.

## 6 Faint y bydd yn costio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae dadansoddiad o ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol ac ymrwymiadau ariannol wedi'i gynnal trwy gasglu gwybodaeth gan bob un o 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu y gall cost darpariaeth gwasanaeth rhanbarthol gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y rhan fwyaf o'r partneriaid os nad y cyfan ohonynt. Mae'r gwaith hwn wedi darparu meincnod ar gyfer y broses dendro os bwriadwn symud tuag at gomisiynu rhanbarthol.

6.2 Cost gyffredinol y prosiect ar lefel ranbarthol fyddai tua £300,000 y flwyddyn a chynigir ystyried contract 3 blynedd a 5 mlynedd.

6.3 Y gost gyfredol ar gyfer gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn Sir Ddinbych yw £91,374 wedi'i rhannu yn £41,374 gan ariannu Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd a £50,000 Teuluoedd yn Gyntaf. Mae ffigurau rhagamcanol ar gyfer arbedion costau ar sail gwasanaethau cyfredol yn dangos gostyngiad sylweddol yn y gyllideb pe bai pob un o'r chwe awdurdod yn cydweithio gyda swm Sir Ddinbych yn £51,195, arbediad posibl o £40,000. Serch hynny, mae hyn yn amodol ar newid os byddwn yn llunio contract ar lefel isranbarthol.

6.4 O ran y gwaith parhaus yn Sir Ddinbych i adnabod Gofalwyr Ifanc a grybwyllir yn 4.3.4, unwaith y mae hyn wedi'i gwblhau mae'n debyg y bydd nifer uwch o Ofalwyr Ifanc angen gwasanaeth. Cynigir y gallai peth o'r arbedion gael eu defnyddio i greu mwy o allu os oes angen.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd wedi'i wneud ar y penderfyniad? Dylai'r templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyflawn fod

**ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Bydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel awdurdod arweiniol ar gyfer y gweithgor wrth i'r prosiect ddatblygu.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae cynrychiolwyr o bob un o chwe sir Gogledd Cymru ac Iechyd (mae Iechyd yn darparu cyfraniad o gyfanswm o £26,000 ar draws y chwe awdurdod) ar y gweithgor a'r Set Ddysgu Cynllunio a Chomisiynu (Teuluoedd yn Gyntaf).

Bydd yn rhaid trefnu ymgynghoriad gyda Gofalwyr Ifanc, a bydd yn cael ei drefnu unwaith y bydd ymrwymiad wedi'i wneud i'r broses gan bob awdurdod lleol. Mae'n bosibl y bydd ymgynghoriad gyda'r holl randdeiliaid perthnasol hefyd yn angenrheidiol.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

9.1 Dylai unrhyw gostau ac arbedion posibl ddod yn gliriach wrth i'r prosiect ddatblygu. Rhaid cadw'r costau o fewn adnoddau cyfredol.

## 10 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w gostwng?

10.1 Mae angen ymrwymiad gan bob awdurdod a chytundeb yn ymwneud â chytundeb cyfochrog erbyn mis Chwefror 2013 er mwyn galluogi i'r broses gael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2014. Mae opsiwn i gomisiynu'n isranbarthol os na all pob un o'r siroedd ymrwymo ar hyn o bryd. Bydd addasiadau yn cael eu gwneud i'r asesiad ariannol i adlewyrchu unrhyw newidiadau.

10.2 Mae risg hefyd na fydd cyflenwyr yn gallu tendro ar gyfer contract o'r gwerth hwn. Mae opsiwn i gomisiynu ar y cyd gyda nifer yn llai o siroedd, o bosibl tri chytundeb yn gorchuddio dwy sir yr un. Mae opsiwn hefyd i ddarparwyr gyflwyno tendr ar y cyd. Byddwn yn gweithio gyda'r gwasanaethau gwirfoddol unigol o fewn pob awdurdod a Busnes Cymru i helpu i reoli'r risg.

10.3 Bydd asesiad risg yn cael ei ddatblygu a'i ddiweddaru wrth i'r prosiect symud yn ei flaen

## 11 Y Pŵer i Wneud y Penderfyniad

Cedwir y pŵer i wneud penderfyniad o dan Ran 25.4 (c ) Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor